

# CYNGOR GWYNEDD



## Adroddiad i gyfarfod o Gyngor Gwynedd

<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	<b>25 Awst 2022</b>
<b>Teitl yr Eitem:</b>	<b>Cwricwlwm Addysg Cyd-berthynas a Rhywioldeb</b>
<b>Aelod:</b>	<b>Y Cynghorydd Beca Brown</b>
<b>Swyddog Cyswllt:</b>	<b>Garem Jackson, Pennaeth Addysg / Iwan Evans, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol</b>

### CEFNDIR A RHESYMEG

- 1.1 Caiff y cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ei weithredu yng Nghymru o fis Medi 2022 ymlaen.
- 1.2 Bydd Addysg Rhyw a Pherthnasau (SRE) yn newid i 'Addysg Cyd-berthynas a Rhywioldeb' (RSE) yn y cwricwlwm newydd. Mae'r newid yn y teitl yn fwriadol - gyda ffocws o'r newydd ar Gyd-berthnasau.
- 1.3 Mae gan rieni rôl ganolog i'w chwarae wrth gefnogi eu plant. Mae rôl hanfodol i ysgolion hefyd - yn enwedig mewn byd lle mae cymaint o wybodaeth anghywir a chamarweiniol a deunydd niweidiol i'w cael ar-lein. Mae Addysg Cyd-berthynas a Rhywioldeb yn chwarae rôl bwysig i ddiogelu a gwarchod holl ddysgwyr Cymru.
- 1.4 Mae ymgynghoriad helaeth wedi'i gynnal ar y cynigion a bu Cod drafft Addysg Cyd-berthynas a Rhywioldeb yn destun ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 21 Mai 2021 a 12 Gorffennaf 2021. Ceir manylion am yr ymgynghoriad a'i ganfyddiadau [yma](#).
- 1.5 Mae'r Cod wedi'i ddatblygu gan ymarferwyr ac mae'n seiliedig ar ymchwil a thystiolaeth. Cyhoeddwyd y Cod a'r canllawiau statudol ym mis Ionawr 2022 wedi i'r Senedd basio'r Cod Addysg Cyd-berthynas a Rhywioldeb ym mis Rhagfyr 2021.
- 1.6 Mae Addysg Cyd-berthynas a Rhywioldeb yn elfen hanfodol o Fframwaith Cwricwlwm i Gymru a rhaid i gwricwlwm gyd-fynd â'r [Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb](#). Mae hwn yn ganllaw statudol i benaethiaid, cyrff llywodraethu ac Awdurdodau Addysg Lleol. Fel y cyfryw, mae disgwyliad cyfreithiol iddo gael ei ddefnyddio a'i weithredu a byddai'n rhaid i unrhyw un gael rhesymau da a chryf dros beidio â dilyn y canllaw. Mae gan ysgolion gyfrifoldeb unigol uniongyrchol i weithredu fel cyrff corfforaethol eu hunain.
- 1.7 Yn unol â'r Ddeddf, mae'n rhaid i'r addysg cyd-berthynas a rhywioldeb a ddarperir gan ysgolion fod yn briodol i ddatblygiad dysgwyr. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ysgolion ystyried amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys oedran y dysgwr; ei wybodaeth a'i aeddfedrwydd; unrhyw anghenion dysgu ychwanegol a rhagweld ei ddatblygiad ffisiolegol ac emosiynol. Rhaid i addysg cyd-berthynas a rhywioldeb fod yn briodol i

ddatblygiad pob dysgwr, sy'n golygu y gall anghenion dysgwyr o oedrannau tebyg fod yn wahanol.

- 1.8 Mae gofynion cyfreithiol i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fod yn briodol o ran datblygiad, gan gynnwys yr adnoddau fydd ysgolion yn eu defnyddio i'w weithredu.

Mae pynciau fel diogelwch ar-lein, caniatâd ac iechyd rhywiol i gyd wedi'u cynnwys yn y Cod, ond ar gamau datblygu priodol fel nad yw dysgwyr yn cael eu hamlygu i bethau nad ydynt yn briodol i'w hoedran a'u datblygiad.

- 1.9 Cymerwyd gofal i sicrhau y bydd yr holl ddysgu o fewn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn briodol o ran datblygiad, ac mae'r athrawon, rhanddeiliaid a gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'i ddatblygu wedi sicrhau bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn y Cod.
- 1.10 Bydd addysg am gyd-berthnasau yn natblygiad cynnar yn canolbwyntio ar adeiladu hunan-hyder drwy annog dysgwyr i werthfawrogi eu hunain; adnabod a chyfathrebu eu teimladau a ffurfio cyfeillgarwch.
- 1.11 Er enghraifft, yn 5 oed, mae plant sydd yn y Cyfnod Sylfaen ar hyn o bryd yn dysgu am berthnasau gyda rhieni, teulu a ffrindiau - nid perthnasau rhamantus. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y cwricwlwm newydd. Caiff y cysyniad o 'gydsyniad' cyffredinol ei gyflwyno yn natblygiad cynnar a chaiff y dysgu ei amlinellu yn y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb - 'ymwybyddiaeth o ofyn am ganiatâd i rannu deunyddiau, er enghraifft teganau. Ymwybyddiaeth o hawl pawb i breifatrwydd, ffiniau personol'.
- 1.12 Hyd at ddiwedd yr ysgol gynradd, bydd plant yn dysgu am yr isod, fel sydd wedi'i nodi yn y Cod Addysg Cyd-berthynas a Rhywioldeb:
- Datblygu empathi a charedigrwydd drwy ryngweithio cadarnhaol.
  - Hyrwyddo ymwybyddiaeth fod gwahanol fathau o deuluoedd a chyd-berthnasau - a bod pawb yn unigryw.
  - Dysgu sut mae bodau dynol yn newid wrth iddynt dyfu.
  - Cydnabod pwysigrwydd edrych ar eich ôl eich hun a hylendid personol.
  - Dysgu'r geiriau iawn am bob rhan o'r corff.
  - Gwybod manteision gofyn am help ac wrth bwy i ofyn am help.
  - Sylweddoli fod gan bawb hawl i breifatrwydd a deall y syniad cyffredinol o gydsyniad yn eu hymwneud dyddiol ag eraill.
  - Gallu rhyngweithio ag eraill mewn ffordd sy'n deg ac yn barchus i bawb.
- 1.13 Mae Comisiynydd Plant Cymru yn "cefnogi'n gryf" y cynigion Addysg Cyd-berthynas a Rhywioldeb, gan ddweud y bydd yn "rhoi y ddealltwriaeth sydd ei hangen ar blant a phobl ifanc i wneud dewisiadau diogel, gwybodus".
- <https://www.complantcymru.org.uk/addysg-cydberthynas-a-rhywioldeb-rse/>

Mae'r NSPCC wedi disgrifio'r cwricwlwm newydd fel "newid byd" wrth helpu i gadw plant yn ddiogel. Fe wnaethon nhw ymgyrchu hefyd dros gael gwared â 'Hawl rhiant i dynnu'n ôl' oherwydd eu bod yn credu y dylai pob plentyn gael mynediad at wybodaeth sy'n eu cadw'n ddiogel ac ymatebodd yr NSPCC yn gadarnhaol yn bennaf i'r ymgynghoriad ar y mater hwn.

- 1.14 Bydd cefnogaeth yn cael ei rhoi i ysgolion Gwynedd er mwyn iddynt gyflwyno'r Addysg Cyd-berthynas a Rhywioldeb fel y nodir yn y Ddeddf a'r Cod.

## **CYD-DESTUN CYFREITHIOL**

- 2.1 Yn unol â Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 mae'r gofyn cyflwyno Cwricwlwm Addysg Cyd-berthynas a Rhywioldeb yn ddyletswydd Statudol sydd yn disgyn ar ysgolion gan gychwyn 1af o Fedi 2022 wrth i'r darpariaethau ddod i rym. Mae'r Cod Addysg Cyd-berthynas a Rhywioldeb yn cynrychioli arweiniad statudol i ysgolion ynglŷn â gweithredu y Cwricwlwm fel y nodir yn rhan 1 o'r adroddiad yma. Yn eich swyddogaeth fel Awdurdod Addysg Lleol un o'ch prif gyfrifoldebau yw sicrhau bod ysgolion Gwynedd yn gweithredu yn unol â'u dyletswyddau cyfreithiol.
- 2.2 Mae cyfeiriadau at achos Adolygiad Barnwrol sydd wedi ei gymryd gan grŵp o rieni yn erbyn Gweinidogion Cymru ynglŷn â'r cwricwlwm ACR. Nid yw Cyngor Gwynedd yn barti i'r achos yma ac nid oes gennym unrhyw ran i chwarae ynddo. Mater i Lywodraeth Cymru fydd ymdrin â chanlyniad yr achos pryd bynnag y boed hynny a beth bynnag y canlyniad. Ar hyn o bryd mae'r hawlyddion wedi derbyn caniatâd i wneud y cais. Tydi hynny ddim mewn gwirionedd yn darogan canlyniad gwrandawriad llawn. **Yn y cyfamser mae'r gofynion statudol ar ein hysgolion yn parhau yn weithredol.** Ni ellir felly mewn modd ystyrlon geisio asesu risg sydd ynghlwm â chanlyniadau posib yr achos na chmau posib i ymateb.
- 2.3 Mae rhan 1 o'r adroddiad yn esbonio natur a chyd-destun y cwricwlwm a'r modd y bydd yn cael ei ddarparu yn ein hysgolion. Petai'r cwricwlwm yn cael ei addasu neu newid yn y dyfodol dyweder oherwydd canlyniad achos llys byddai ein hysgolion yn gorfod gweithredu yn unol â'r gofynion newydd. Fodd bynnag mae gan ein hysgolion hefyd amryw o ddyletswyddau ehangach o ran lles ac amddiffyn plant. Felly, mae'n anodd amgyffred sut y byddai modd i ysgol sydd yn cael ei gweithredu yn briodol ac yn unol a'i dyletswyddau cyfreithiol arwain at greu hawliad am iawndal oherwydd cynnwys eu gwersi.

### **ATODIAD:**

- [Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb](#)

## **UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

Bu Cod drafft Addysg Cyd-berthynas a Rhywioldeb yn destun ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 21 Mai 2021 a 12 Gorffennaf 2021. Ceir manylion am yr ymgynghoriad a'i ganfyddiadau [yma](#).

### **SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL:**

#### **Swyddog Monitro:**

Rwyf wedi cyfranu at yr adroddiad yma, dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Prif Swyddog Cyllid:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.